INSLRB09

# Gweinyddu trethi lleol, budd-daliadau, grantiau a chynlluniau cymorth eraill

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'r cymhwysedd craidd sydd ei angen ar bawb sy'n gweithio ym maes gweinyddu trethi lleol, budd-daliadau, grantiau a chynlluniau cymorth eraill, beth bynnag fo'u rôl neu swyddogaeth. Mae'n cynnwys deall deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol, deall yr amgylchedd lleol perthnasol a gweithio o fewn gofynion sefydliadol i sicrhau dulliau gweithio effeithiol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. storio ffeiliau a dogfennaeth yn unol â'r gweithdrefnau a'r gofynion sefydliadol perthnasol
2. lleoli ac adfer gwybodaeth sy'n ymwneud â threthiant lleol a/neu fudd-daliadau, grantiau a chynlluniau cymorth eraill, yn system cadw cofnodion eich sefydliad yn ôl yr angen i gyflawni eich rôl
3. gweithio gyda staff, adrannau, swyddfeydd neu asiantaethau eraill i gael gwybodaeth sy'n ymwneud â threthiant lleol a/neu fudd-daliadau, grantiau a chynlluniau cymorth eraill, yn ôl yr angen
4. rhoi gwybodaeth sy'n ymwneud â threthiant lleol a/neu fudd-daliadau, grantiau a chynlluniau cymorth eraill, i staff, adrannau, swyddfeydd neu asiantaethau eraill, yn ôl yr angen, yn unol â deddfwriaeth diogelu data
5. cyhoeddi ffurflenni perthnasol i geisyddion yn ôl yr angen, yn unol â'r gweithdrefnau gweithredu lleol perthnasol
6. cadarnhau bod yr holl ffurflenni cais a dogfennau perthnasol a dderbyniwyd yn cydymffurfio â gofynion eich sefydliad, a mynd ar drywydd unrhyw wybodaeth sydd ar goll lle bo angen
7. mynd ar drywydd unrhyw ffurflenni sydd heb gyrraedd erbyn y dyddiad cau ac anfon nodyn atgoffa
8. prosesu'r holl wybodaeth yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data berthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y codau ymarfer, y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol
2. amrywiaeth gymdeithasol ac ethnig yn ogystal ag anghenion y cymunedau y mae eich sefydliad yn eu gwasanaethu
3. cyfraith achosion, dyfarniadau, rheoliadau a chanllawiau perthnasol sy'n ymwneud â threthiant lleol a/neu fudd-daliadau, grantiau a chynlluniau cymorth
4. y ddeddfwriaeth berthnasol o ran diogelu data a rhyddid gwybodaeth
5. y gwahaniaethau, at ddibenion trethiant, rhwng eiddo domestig ac annomestig a'r gwahanol fathau o drethiant ar eiddo
6. y gwahanol fathau o grantiau, ceisiadau am fudd-daliadau a chymorth, a cheisyddion
7. yr adrannau neu'r swyddfeydd cysylltiedig perthnasol, eu rolau, a sut i weithio gyda nhw
8. gofynion a gweithdrefnau perthnasol y sefydliad ac asiantaethau allanol ar gyfer cael gwybodaeth a'i chyfnewid
9. y dulliau cofnodi ac adfer data, a phwysigrwydd cynnal cofnodion
10. gweithdrefnau'r awdurdod lleol ar gyfer sicrhau diogelwch a chyfrinachedd gwybodaeth
11. y gofynion archwilio mewnol ac allanol perthnasol

INSLRB09

Gweinyddu trethi lleol, budd-daliadau, grantiau a chynlluniau cymorth eraill

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Instructus |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Ion 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Instructus |
| **RCU gwreiddiol** | ASTPS3 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Tai, Gweinyddwr Tai Cynorthwyol, Gweinyddwr Tai, Cynorthwyydd Tai, Rheolwr Tai, Swyddog Budd-daliadau, Swyddog/Cynorthwyydd Trethiant a Budd-daliadau, Cynorthwyydd Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Trafodwr Gosod Tai, Swyddog/Cynorthwyydd Refeniw, Swyddog/Rheolwr Eiddo Cynorthwyol, Swyddog/Cynorthwyydd Cymorth Tai |
| **Cyfres/Set** | Gweinyddu Refeniw Lleol a Budd-daliadau |
| **Geiriau Allweddol** | cwsmeriaid; cymorth; gwasanaethau; cytundebau; deddfwriaeth; dogfennaeth; cynhwysiant cymdeithasol; proses; datrys anghydfodau; cydymffurfiaeth |